

## CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Paul Weston

Nos Lun Ionawr 4ydd 2016 am 7.30 y.h.

### Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Dilwyn Roberts
2. **Preseanol:** Cyng. Alun Edwards, Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Paul Weston ac Enid Williams (Clerc)
3. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Rhagfyr** cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gwynfor Roberts yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
  - 5.1. Diffibriliwr – cafwyd cadarnhad fod y diffibriliwr a'r cabinet wedi cael ei archebu a bod adran o Gyngor Conwy yn edrych i mewn i'r gost o'i gosod. Bydd hyfforddiant ar gael yn rhad ac am ddim i unrhyw un sydd â diddordeb defnyddio'r offer ar nos Fawrth Ionawr 26ain am 7.30.
  - 5.2. Bin Baw Cŵn wrth y Giler dal heb ei sythu.
  - 5.3. Bin Sbwriel – cadarnhad fod un metal am gael ei osod ar yr A5
  - 5.4. Lampau stryd – wedi cysylltu gyda Chonwy ynglŷn ar fater.
  - 5.5. Cwyn Twt-lol mwyafrif o'r cwynion wedi ei datrys. Ni fydd Conwy yn gosod lamp newydd yn y maes parcio oherwydd y gost.
  - 5.6. Llinellau gwyn ar y 'T-junction' -'Gowld/Ffordd Garn' am gael ei hail beintio yn y Gwanwyn.
6. **Gohebiaeth:**

C.B.S.C. wedi derbyn trydydd taliad o'r presept £1216.00.
7. **Talu Anfoneb:** Cynllun Penrallt - cynigiodd Alun Edwards gyda Edmund Rees yn eilio talu'r anfoneb am y goeden Nadolig sef **£82.00** gyda siec rhif **100258**.
8. **Trafod Cyllideb a'i mabwysiadu:**

Ar ôl edrych dros y ffigyrau a'i trafod yn fanwl iawn cynigiodd Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio a phawb yn gytun dderbyn y Gyllideb am y flwyddyn 2016-17.
9. **Cwblhau mantolen y Presept** – ar ôl edrych dros a chymharu'r ffigyrau daeth i benderfyniad ar gynigiad Edmund Rees gyda Gwynfor Roberts yn eilio ein bod yn cadw'r Presept am eleni'r un fath a llynedd sef £3650.00 ond y byddwn yn adolygu'r ffigyrau yn fanwl y flwyddyn nesaf.
10. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Nid oedd y Cynghorydd Sirol yn bresennol.
11. **Unrhyw fater arall:**
  - 11.1. Ar gynigiad Alun Owen gyda Gari Jones yn eilio cytunwyd ar i'r clerwr gael cymorth i roi'r wybodaeth angenrheidiol ar wefan y Cyngor.
  - 11.2. Gan fod cyfnod y rhaglen sy'n gweithio'r gliwiadur wedi dod i ben cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Edmund Rees yn eilio ein bod yn archebu 'Office Home and Student 2016' ar gost o **£119.99** a dalwyd gyda siec rhif **100257**.
  - 11.3. Derbyniwyd llythyr gan Warden y Ganolfan yn diolch i'r Cyngor am y goeden Nadolig.
  - 11.4. Cambrian Rally – hysbyswyd fod y rali yn yr ardal ar benwythnos 13eg Chwefror.
  - 11.5. Materion ychwanegol:
    - a) Draeniau wedi blocio wrth Penrallt a Sign.
    - b) Baw Cŵn rhwng Llwyn Onn a Cefn Rhyd.
    - c) Angen arwydd Baw Cŵn ar y giât o'r A5 yng nghanol y pentref.
    - ch) Dwr yn sefyll wrth yr arosfa o Bentrefoelas i'r Giler.
    - d) Angen arwyddion 'Araf' wrth Cernioge Mawr.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mawrth 7fed 2016 am 7.30 y.h.**

*Paul Weston*

**07.03.16**



